**<u>Datganiad Cyfrifon Rhondda Cynon Taf 2023/24 – Hysbysiad Archwilio</u>**

Mae Rheoliad 10(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn bod Swyddog Cyllid Cyfrifol Cyngor Rhondda Cynon Taf yn llofnodi a dyddio'r datganiad cyfrifon, ac yn ardystio ei fod yn cyflwyno trosolwg gwir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi ac incwm a gwariant y corff ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'r Rheoliadau'n gofyn bod hwn yn cael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2024.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei disgwyliad o ran amserlen estynedig ar gyfer ardystio ac archwilio cyfrifon ariannol statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 (sef 30 Mehefin a 30 Tachwedd yn y drefn honno) ac ar gyfer blynyddoedd dilynol a bydd yn ceisio ymgynghori ar y rheoliadau a gwneud diwygiadau iddyn nhw. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i gyrff gyhoeddi'r datganiad yma (yn unol â rheoliad 10(4)).

Mae'r Awdurdod wedi diwygio ei amserlen yn unol â hynny. Rhagwelir y bydd Datganiad Blynyddol yn cael ei baratoi a'i ardystio erbyn 30 Mehefin 2024.